Ombwdsmon
Ombudsman
Cymru • Wales

# Sut i gwyno wrthym am ymddygiad cynghorwyr lleol



ombudsman.wales

## Ni yw Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

Gwnawn dri pheth. Rydym yn:

- ymchwilio i gwynion am wasanaethau cyhoeddus
- ystyried cwynion bod cynghorwyr wedi torri'r Cod Ymddygiad
- ysgogi gwelliant systematig mewn gwasanaethau cyhoeddus a safonau ymddygiad mewn llywodraeth leol yng Nghymru.

Rydym yn annibynnol, yn ddiduedd, yn deg ac yn agored i bawb sydd ein hangen. Mae ein gwasanaeth am ddim i'w ddefnyddio.



**Mae'r daflen hon yn ymwneud â sut i gwyno wrthym fod cynghorydd wedi torri ei God Ymddygiad.** Mae rhagor o wybodaeth am yr hyn y gallwn ac na allwn ei wneud ar ein gwefan: **ombwdsmon.cymru.**

## Am y Cod Ymddygiad

Mae gan gynghorau lleol, cynghorau cymuned, awdurdodau tân ac achub, awdurdodau parciau cenedlaethol, Cyd-bwyllgorau Corfforedig a phaneli heddlu a throseddu yng Nghymru God Ymddygiad.

Mae'r Cod yn egluro sut y mae'n rhaid i aelodau'r sefydliadau hyn ('cynghorwyr') ymddwyn yn rhinwedd eu swydd, ac (weithiau) yn breifat. Os ydych yn meddwl bod cynghorydd wedi torri'r Cod, gallwch gwyno i ni.

## Gallwn ymchwilio i'ch cwyn os:

- gwelwn dystiolaeth glir y gallai'r cynghorydd fod wedi torri'r Cod.

- byddai ymchwilio er budd y cyhoedd. I benderfynu hyn, rydym yn edrych ar nifer o faterion.  Er enghraifft,
  - os oes angen i ni ymchwilio i gynnal hyder y cyhoedd mewn democratiaeth leol.
  - a fyddai'n gymesur i ni ymchwilio.

**Os penderfynwn beidio ag ymchwilio i'ch cwyn,** byddwn yn esbonio pam. Byddwn yn anfon copi o'n penderfyniad at y cynghorydd, y Swyddog Monitro ac, os yw'n berthnasol, y Clerc hefyd.

**Os byddwn yn ymchwilio ac yn canfod bod y cynghorydd wedi gwneud rhywbeth o'i le a bod angen cymryd camau pellach,** byddwn yn cyfeirio ein hadroddiad at Bwyllgor Safonau'r sefydliad perthnasol, neu at Banel Dyfarnu Cymru.

Yna maent yn edrych ar y gŵyn a'n hadroddiad ac yn penderfynu beth ddylai ddigwydd i'r cynghorydd. Er enghraifft, gallant atal y cynghorydd dros dro neu ei ddiswyddo.

**Mae'n rhaid i chi ddeall, os byddwch yn cwyno wrthym, byddwn yn rhoi gwybod i'r cynghorydd pwy ydych chi a beth yw eich cwyn, a byddwn yn rhannu unrhyw ddeunydd a anfonwyd gyda'ch cwyn. Efallai y bydd angen i chi hefyd siarad â ni ar gofnod ac efallai y bydd gofyn i chi roi tystiolaeth mewn gwrandawiad.**

## Helpwch ni i'ch helpu chi

Pan fyddwch yn cwyno wrthym, anfonwch yr holl wybodaeth berthnasol sydd gennych.

Os oes angen unrhyw gymorth neu gyngor arnoch cyn gwneud eich cwyn, cysylltwch â ni a gwnawn ein gorau i helpu.

## Sut i gysylltu â n

cwblhewch ein
**ffurflen gwyno ar-lein**

ffoniwch ni:
**0300 790 0203**

e-bostiwch ni:
**holwch@ombwdsmon.cymru**

anfonwch lythyr atom:
**1 Ffordd yr Hen Gae,
Pencoed, CF35 5LJ**

Am ein ffurflenni cwyno, ewch i'n gwefan:
**ombwdsmon.cymru**

Gallwn hefyd bostio copi atoch..

**Os hoffech ddarllen y daflen hon mewn fformat arall (er enghraifft Braille, print bras neu Hawdd ei Ddeall), rhowch wybod i ni.**